



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

17 Awst 2022

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn ymateb i

Cam-drin domestig a gyflawnir gan aelodau'r heddlu: Adroddiad ar uwch-gŵyn y Ganolfan Cyfiawnder Menywod

Rwy'n croesawu'r adroddiad sy'n rhoi'r sylw dyledus i gam-drin domestig a gyflawnir gan aelodau'r heddlu.

Mae'n galonogol bod ymchwiliadau troseddol i'r achosion hyn fel arfer o ansawdd tebyg i ymchwiliadau cam-drin domestig eraill a bod yr ymdriniaeth a'r ymateb cychwynnol i alwadau 999 yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'n peri pryder mai casgliad cyffredinol adolygiad yr uwch-gŵyn oedd nad yw heddluoedd yn cydnabod yn llawn nac yn ymateb i'r risgiau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag achosion sy'n ymwneud â phersonél yr heddlu.

Felly, rwy'n derbyn yr argymhelliad fel yr amlinellir yn yr adroddiad:

Argymhelliad 3:

Dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh), Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a Phrif Gwnstabiliaid wneud yn siŵr bod eu darpariaeth gwasanaethau cymorth a chanllawiau cam-drin domestig yn gallu diwallu anghenion penodol pob dioddefwr Cam-drin Domestig a Gyflawnir gan Aelodau'r Heddlu (PPDA), boed y dioddefwr yn aelod o'r heddlu neu beidio. Ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, dylai hyn gynnwys y canlynol:

a. Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i ystyried a yw gwasanaethau lleol yn gallu delio â risgiau a gwendidau penodol dioddefwyr cam-drin domestig a gyflawnir gan aelodau'r Heddlu a'u cefnogi wrth iddynt ymgysylltu â system gwynion a disgyblu'r heddlu.

Fel corff comisiynu mae fy swyddfa eisoes wedi cyflawni rhywfaint o waith gyda'n darparwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt fynediad uniongyrchol at 'Afal Drwg' Heddlu Dyfed-Powys a dulliau adrodd cyfrinachol tebyg trwy Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu (PSD). Rydym wedi rhannu canllawiau gyda darparwyr ynghylch cam-drin pŵer ac ymddiriedaeth yr heddlu, gan eu hannog i adrodd unrhyw beth sy'n peri pryder.

Mae fy holl wasanaethau a gomisiynir yn cael eu darparu ac fe reolir y contractau'n unol â thelerau ac amodau y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n nodi bod yn rhaid i gymorth fod yn rhad ac am ddim ac yn gyfrinachol, ar gael boed y dioddefwr yn dewis adrodd am y drosedd neu peidio, a rhaid iddynt nodi a darparu gwasanaeth gwell fyth i ddioddefwyr bregus.

Bydd fy swyddfa'n cynnal trafodaethau pellach gyda darparwyr gwasanaethau lle bo hynny'n briodol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr cam-drin domestig a gyflawnir gan aelodau'r Heddlu'n benodol.

Rwy'n falch o ddweud, ar ôl codi'r sylwadau sydd yn yr adroddiad gyda Heddlu Dyfed-Powys, rwy'n sicr eu bod wedi derbyn yr holl argymhellion yn yr adroddiad, a byddant nawr yn ystyried sut y byddant yn dangos tystiolaeth o'r modd y maent yn mynd i'r afael â phob un ohonynt.

Mae'r Adran Safonau Proffesiynol a'r ardal fusnes Diogelu Pobl Fregus wedi nodi'r camau sydd eu hangen, fel gwella cefnogaeth i ddioddefwyr sy'n gweithio o fewn Heddlu Dyfed-Powys, adnewyddu polisi a chanllawiau'r Heddlu a hefyd ymgysylltu â sefydliadau'r trydydd sector.

Byddaf yn parhau i graffu ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion drwy'r fforymau priodol.

Rydw i a fy nhîm yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau bod yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchir trwy weithgaredd AHGTAEM yn cael ei weithredu er mwyn gwella'r gwasanaeth plismona ar gyfer preswylwyr Dyfed a Phowys.